



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni  
Heol Gelli Haf  
Fleur De Lys  
Y Coed Duon  
NP12 3JQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn       | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu  |
|------------|--|
| Rhagorol   | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da         | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol               |
| Digonol    | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella  |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau                                |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2016**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11 – 18 oed yw Ysgol Gyfun Cwm Rhymini. Mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Caerffili. Mae ganddi 1,498 o ddisgyblion, gan gynnwys 269 yn y chweched dosbarth. Mae ffigyrau hyn wedi codi ers adeg yr arolygiad blaenorol yn 2010, lle roedd 1,324 o ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar ddau safle. Mae safle Gelli Haf wedi'i leoli'n agos i bentref Fleur de Lys, ac yn cynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae dalgyllch y safle hwn yn cwmpasu pen uchaf y cwm o Lanbradach i Rymni. Mae safle'r Gwyndy yn nhref Caerffili, nid nepell o Gastell Caerffili. Daw disgyblion o ardaloedd Senghennydd a thref Caerffili ei hun i'r safle hwn. Ar hyn o bryd, mae darpariaeth ar gyfer disgyblion 11- 14 oed ar y safle hwn ond bwriedir ehangu'r ddarpariaeth hon i ddisgyblion 11- 18 oed wrth i'r niferoedd dyfu ymhellach.

Mae bron pob disgybl yn deillio o gefndir Prydeinig ac nid oes yr un disgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 8% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'u teulu ond mae pob un ohonynt yn rhugl yr iaith ac yn derbyn eu haddysg ym mhob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw Saesneg. Mae 12.8% o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.7%. Mae tua 25% o'r disgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r holl ystod gallu ac mae canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig tua 21%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae gan 2% o'r disgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym Medi 2008. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, dau ddirprwy gweithredol (un ohonynt yn gyfrifol am safle'r Gwyndy) a thri phennaeth cynorthwyol.

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn 'ysgol arloesi'r cwricwlwm'. Golyga hyn ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac arloeswyr eraill y cwricwlwm i ddatblygu a pheilotu cwricwlwm newydd i Gymru.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymini yn 2015-2016 yw £4,198. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Caerffili yw £5,429 a'r lleiafswm yw £3,846. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymini yn y pumed safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

|                                       |           |
|---------------------------------------|-----------|
| <b>Perfformiad presennol yr ysgol</b> | <b>Da</b> |
| <b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>      | <b>Da</b> |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n ffafriol iawn â'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill
- Hyd at a chan gynnwys 2014, mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg wedi bod yn gyson uwch na'r deilliannau wedi'u modelu; fodd bynnag, yn 2015, bu cwmp sylweddol yn y deilliannau hyn, yn enwedig ymysg y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Mewn llawer o'r gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol
- Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn; fodd bynnag, mae presenoldeb yn isel o gymharu ag ysgolion tebyg eraill
- Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at yr iaith Gymraeg ac mae gan lawer ohonynt afael gadarn ar sut i fynegi eu hunain ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a Chymraeg a hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rol fel dinasyddion y byd yn arbennig
- Ceir addysgu effeithiol mewn llawer o'r gwersi; fodd bynnag, mewn ychydig ohonynt, nid yw athrawon yn cyflwyno digon o her i'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar flaengaredd, brwdfrydedd a Chymreictod; caiff hon ei rhannu'n effeithiol â'r holl staff a'r disgyblion
- Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a gweddill yr uwch dîm arwain yn rhoi cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cynhwysfawr a chadarn
- Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr a chynhwysfawr ac, o ganlyniad, mae'r arweinwyr yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella'n dda
- Mae'r ysgol yn ymateb yn fuan ac yn bwrpasol i agweddau sydd angen eu gwella
- Mae cynllun gwella'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hunanarfarnu ac yn galluogi'r ysgol i osod blaenoriaethau pendant er mwyn codi safonau
- Mae'r corff llywodraethol yn un profiadol sydd yn cynnig cefnogaeth werthfawr i'r ysgol yn ogystal â her briodol

## Argymhellion

- A1 Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ymysg y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
- A2 Gwella lefelau presenoldeb
- A3 Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu drwy barhau i rannu'r arferion gorau sy'n bodoli yn yr ysgol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n ffafriol iawn â'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2015, disgynnodd perfformiad mewn ychydig o'r dangosyddion yn is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill.

Rhwng 2012 a 2014, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, llawer yn uwch na'r deilliannau wedi'u modelu. Fodd bynnag, yn 2015, disgynnodd perfformiad yn y dangosydd hwn yn sylweddol is na'r deilliannau wedi'u modelu. Ers 2012, mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr bwyntiau wedi'i chapio yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau TGAU A\* - A wedi amrywio ond yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg eraill. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Rhwng 2012 a 2014, roedd perfformiad y bechgyn a'r merched yn y dangosydd lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, yn 2015, yn y dangosydd hwn, disgynnodd perfformiad y bechgyn a'r merched yn sylweddol is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn y dangosydd lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn gymysg. Fodd bynnag, yn 2015, disgynnodd perfformiad y grŵp hwn yn sylweddol is na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn ennill un neu ragor o gymwysterau ac yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd wedi gostwng ers 2013.

Ym Mlwyddyn 13, ers 2012, mae cyfran y disgyblion sy'n llwyddo i gyflawni 3 A\*-C neu gyfwerth yn lefel A wedi amrywio ond mae'n gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill. Dros yr un cyfnod, mae'r cyfran sy'n cyflawni 3 A\*-A neu gyfwerth wedi amrywio ac mae'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg eraill. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol yn y sgôr pwyntiau cyfartalog a'r dangosydd lefel 3 yn agos at ysgolion tebyg eraill.

Yn y gwersi, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol i'w gwaith ac yn gwrandao ar ei gilydd a'u hathrawon yn astud. Maent yn awyddus i gyfrannu a gall llawer, yn enwedig y bechgyn, fynegi eu syniadau ar lafar yn glir. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn trafod eu syniadau'n frwdfrydig mewn parau neu grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf yn

arddangos ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at yr iaith Gymraeg. Mae ychydig o'r disgyblion yn cyfathrebu'n huawdl ac yn defnyddio geirfa eang mewn modd soffistigedig. Fodd bynnag, mae ychydig iawn yn ddi-hyder wrth gyfathrebu ar lafar ac yn meddu ar eirfa gul sydd yn cyfyngu ar eu gallu i ymhelaethu ar eu hymatebion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir. Mae llawer ohonynt yn adeiladu'n gynhyrchiol ar hyn ac yn arddangos gafael gadarn ar gysyniadau pynciol a themau sy'n benodol i bwnc. Mewn llawer o wersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn eu dealltwriaeth bynciol. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn effeithiol drwy gymhwyso gwybodaeth bynciol wrth ddadansoddi tystiolaeth neu ddata.

Mae gan lawer o'r disgyblion fedrau darllen hyfedr ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol wrth gywain gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau. Yn y mwyafrif o bynciau, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig o ansawdd uchel. Maent yn arddangos gafael gadarn ar gystrawen ac yn cymhwyso rheolau gramadegol a sillafu yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau ysgrifenedig oherwydd maent yn copïo yn hytrach na'n cynhyrchu eu brawddegau eu hunain.

Mewn llawer o'r gwersi, mae'r disgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol yn ogystal â'r medrau i wella'u gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mewn ychydig o'r gwersi, mae disgyblion yn rhy oddefol ac yn dibynnu'n ormodol ar fewnbwn athrawon.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol ar draws y pynciau. Maent yn hyderus wrth adio, tynnu, lluosu, rhannu a thrawsnewid ffracsiynau i ddegolion. Mewn ystod briodol o bynciau, mae llawer yn datblygu eu medrau mesur yn fuddiol. Gall llawer ymdrin â data yn llwyddiannus gan lunio graffiau priodol cywir i arddangos data.

## **Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn meddwl bod staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth drwyadl o sut i fwyta'n iach a cheir lefelau uchel o gyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol ac allgyrsiol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Nid oes yr un disgybl wedi ei wahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol a brwdfrydig iawn tuag at eu dysgu.

Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi gostwng ac mae'n isel o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae cyfraddau presenoldeb wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn parhau'n isel o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. Mae'r ffigyrau hyn ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg ers pum mlynedd ac yn gyson is na'r deilliannau wedi'u modelu. Yn 2015, cafodd lefelau presenoldeb y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim effaith andwyol ar eu cyrhaeddiad.

Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrandao arnynt ac yn gwneud newidiadau maent yn eu hawgrymu. Mae'r cyngor ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau amrywiol o fywyd yr ysgol, er enghraifft trefn gwaith cartref, gwisg ysgol a datblygu polisi o gerdded ar y chwith yng nghoridorau'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n ddefnyddiol at ddiwyddiadau cymunedol, diwylliannol ac elusennol.

Dangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion barch, gofal a phryder at ei gilydd ac oedolion ac mae ganddynt y medrau angenrheidiol i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu fyd gwaith.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

### **Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm effeithiol iawn sydd yn bodloni gofynion statudol ar gyfer pob disgybl. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig dewis eang o opsiynau, sy'n cynnwys ystod o gyrsgiau galwedigaethol a chyffredinol, ac mae'n bodloni dymuniadau'r disgyblion ac anghenion cyflogwyr lleol yn dda iawn.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis arbennig o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion, sy'n cynnwys clybiau o ddiddordeb penodol ac ymweliadau creadigol iawn. Er enghraifft, ymweliad i dŷ bwyta Tsieiniaidd gydag athrawes o Tsieina i ehangu eu dealltwriaeth ddiwylliannol. Mae cysylltiadau rhagorol gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dychmygus iawn wrth i'r disgyblion drosglwyddo i'r sector uwchradd. Ceir cynlluniau o safon uchel iawn megis 'Cau'r Bwlch' i baratoi darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion penodol a'r cynllun arloesol a'r cynllun ysgol arwain amlieithog arloesol sydd yn datblygu medrau llythrennedd ehangach y disgyblion.

Mae'r modd y mae'r ysgol yn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn nodwedd gref iawn. Drwy gynllunio manwl a darparu adnoddau pwrpasol, mae cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu'r medrau a'u defnyddio ar y lefel briodol o her yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn arbennig o ran datblygu llythrennedd. Drwy ymyraethau effeithiol iawn, mae'r ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan, ynghyd â darparu profiadau gwerthfawr sy'n ymestyn y disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a Chymraeg yn elfen arbennig. Mae gan yr ysgol weithgareddau penodol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o hunaniaeth Gymreig ac yn hyrwyddo yn greadigol iawn bwysigrwydd y Gymraeg iddynt fel dinasyddion Cymru. Mae'r 'Siartr Camau Cymreictod' yn cwmpasu disgywiliadau'r disgyblion am ddefnydd cywir yr iaith Gymraeg yn yr ysgol mewn awyrgylch cadarnhaol. Gwobrwyir disgyblion yn effeithiol iawn drwy system codau y '3C', sef Cymreictod, Cwrteisi a Chyfeillgarwch.

Mae'r ysgol yn arloesol yn ei darpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, cynigir Mandarin fel iaith ychwanegol ac mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion yn Brasil i gyfoethogi profiadau



dysgu trawsgwricwlaidd. Mae'r cyngor eco yn eithriadol o weithgar ac yn creu ysgol sy'n anelu at weithredu'n gynaliadwy. Mae'r ysgol yn gweithio'n arbennig gyda'r gymuned ehangach drwy weithgareddau penodol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### **Addysgu: Da**

Ym mron pob gwers, mae athrawon yn cynnal perthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cyflwyno model ieithyddol fuddiol ac yn annog defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion mewn modd cadarnhaol a sensitif.

Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio'u gwersi'n feddylgar i gynnwys cyfres o weithgareddau symbylol i ennyn diddordeb y disgyblion a chadarnhau eu dysgu blaenorol. Mae'r tasgau yn y gwersi hyn yn cynnig her briodol o uchel ac yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau y disgyblion. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn sicrhau tempo sionc ac yn symud o gwmpas y dosbarth yn wylidwrus i gynorthwyo ac annog disgyblion penodol i gyflawni. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol i brofi syniadau'r disgyblion a rhai dilynol i'w hysgogi i ymhelaethu ar eu hymatebion.

Mewn ychydig o'r gwersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o ganlyniad i gynllunio creadigol a manwl ynghyd â disgwyliadau uchel iawn gan athrawon. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn targedu eu cwestiynau i sicrhau ymroddiad pawb.

Mewn ychydig o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn cyflwyno her ddigonol i'r disgyblion. Mae'r gwersi hyn yn symud yn araf ac nid yw'r athrawon yn holi'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig gormod o gymorth i'r disgyblion ac yn cyflwyno am adegau estynedig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn rhy oddefol ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau na'u dealltwriaeth bynciol.

Mewn llawer o wersi, cynigia'r athrawon adborth llafar defnyddiol ac adeiladol i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig adborth defnyddiol iddynt ar sut i wella ansawdd eu gwaith. Gosoda'r rhan fwyaf o athrawon dargedau buddiol ac mae llawer yn sicrhau bod y disgyblion yn ymateb yn briodol trwy ailddrafftio eu gwaith neu gyflawni tasgau ychwanegol perthnasol. Mewn llawer o bynciau, caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i hunanasesu neu asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr i olrhain cynnydd disgyblion ac i fynd i'r afael ag unrhyw dangyflawniad, sydd wedi cyfrannu at ddeilliannau cadarn mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu adroddiadau manwl i rieni ar gynnydd eu plant, sydd yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae ansawdd y sylwadau yn yr adroddiadau pynciol yn amrywio ac nid yw ychydig ohonynt yn ddigon defnyddiol.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae bob disgybl yn cael ei gynnwys yn llawn ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae trefniadau cynhwysfawr i gefnogi iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i hybu ffitrwydd ac agweddau iach o fewn yr ysgol ac yn allgyrsiol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gadw'n iach.

Mae gan yr ysgol strategaeth briodol ar gyfer hyrwyddo a gwella presenoldeb disgyblion sydd wedi arwain at welliant yn ddiweddar. Er enghraifft, mae presenoldeb llawer o ddisgyblion sydd yn mynychu'r ddarpariaeth amgen wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae canran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn gyson wedi lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi cynllunio'n ddigon strategol i wella presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy wasanaethau diddorol, cyfnodau cofrestru a grwpiau targed 'cymell ac ysbrydoli'. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chydlynu'n fedrus ac yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad clir i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o ystod o asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn ac yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da. Mae gan y rhieni a'r disgyblion fewnbwn gwerthfawr i'r cynlluniau addysg unigol. Maent yn cynnwys llawer o wybodaeth a strategaethau defnyddiol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae defnydd y cynlluniau hyn yn anwastad ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn derbyn cefnogaeth o ansawdd uchel. Mae'r 'HAFAN' (darpariaeth arbenigol yr ysgol) a'r amserlenni unigol ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyfrannu at ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u hunan-hyder yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion sy'n derbyn y ddarpariaeth hon yn gwella eu hymagweddau at ddysgu ac yn ennill cymwysterau gwerthfawr. Mae'r 'Ganolfan' yn cynnig cefnogaeth arbenigol fuddiol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol cymhleth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gymuned ag ethos cynhwysol, cyfeillgar, Cymreig. Mae ynddi ymdeimlad hynod gryf o berthyn, cydweithio a chyd-ddyheu. Ceir ysbryd o fwrwlm a brwdfrydedd sy'n cael ei goleddu gan yr holl staff a'r disgyblion.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag ei anghenion. Caiff pob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm a chefnogaeth

berthnasol. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau eithriadol i'r holl ddisgyblion er mwyn ehangu eu gorwelion a hybu balchder yn eu treftadaeth a'u diwylliant. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun hygyrchedd priodol ac mae'n rhagweithiol wrth herio unrhyw achos o ystrydebu.

Mae safle Gellihaf a'r Gwyndy yn cynnig amgylchedd dysgu eang ac ysgogol. Mae ystod eang o adnoddau o safon uchel i hyrwyddo'r dysgu. Mae'r adeiladau, gan gynnwys y toiledau a'r ystafelloedd dysgu, yn cael eu cynnal yn dda ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y disgyblion.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b> | <b>Da</b> |
|--|-----------|

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar flaengaredd, brwdfrydedd a Chymreictod. Cefnogir ef yn fedrus gan y dirprwy bennaeth a gweddill yr uwch dîm arwain i ddarparu cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu i'r holl staff yn effeithiol ac maent yn ymaflyd â hi gyda brwdfrydedd. O ganlyniad, mae'r holl staff yn gefnogol i ddatganiad o genhadaeth yr ysgol, sef 'Calon y cyfan yw cynnydd disgyblion'. Mae'r cydweithio agos rhwng arweinwyr wedi arwain at sicrhau atebolrwydd cadarn ac i gynnal safonau uchel hyd at 2015.

Mae datblygu arweinwyr ar bob lefel yn gryfder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cynhwysfawr a chadarn. Caiff y rhain eu defnyddio i gynorthwyo staff i ddatblygu'n broffesiynol a gwireddu eu potensial. Mae'r uwch arweinwyr yn delio'n effeithiol a chwim gydag unrhyw danberfformio trwy gynnig cynhaliadau a chefnogaeth ddefnyddiol. O ganlyniad, teimla'r staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u herio'n briodol.

Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n synhwyrol ac mae llinellau atebolrwydd yn glir. Mae arweinwyr canol yn cael eu dwyn yn atebol yn effeithiol trwy gyfres o gyfarfodydd rheolaidd gydag agenda gyffredin. Ceir ffocws clir yn y cyfarfodydd hyn ar safonau, monitro cynnydd a materion cwricwlaidd. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr canol ddealltwriaeth trwyadl o'r disgwyliadau sydd arnynt a'u cyfraniad tuag at lwyddiant yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion y cyfarfodydd hyn yn adnabod pwyntiau gweithredu priodol ond nid yw ychydig ohonynt yn nodi terfynau amser cytunedig nac yn dyrannu cyfrifoldebau i gyflawni'r gweithredoedd yn ddigon clir.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth gadarn o ddata ar berfformiad disgyblion ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i gynllunio ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi arwain at ddigon o welliant mewn presenoldeb.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol iawn i flaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd, rhifedd a datblygiadau cwricwlaidd. Trwy fod yn flaengar i ddatblygu'r Fagloriaeth Gymreig a chynnig arweiniad ar agweddau cwricwlaidd, cyfoethogir y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chryfheir datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r llywodraethwyr yn cynnig cefnogaeth werthfawr i'r ysgol yn ogystal â her briodol. Mae'r corff llywodraethol yn cwblhau eu dyletswyddau statudol yn llwyddiannus ac yn rhoi sylw teilwng i arweiniad perthnasol. Mae'r llywodraethwyr yn brofiadol ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau ac ansawdd yr addysgu. Trwy gyfarfodydd cyson gyda chorff llywodraethol ysgol uwchradd arall, mae'r llywodraethwyr yn monitro ansawdd darpariaeth ar y cyd yn effeithiol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr sydd yn greiddiol i wella ansawdd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr gan yr uwch dîm arwain o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen sylweddol sydd yn cynnwys cyflwyniad helaeth o ddata perfformiad ac adolygiad llawn o holl agweddau bywyd yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig rannau o'r ddogfen yn or-ddisgrifiadol ac nid oes dadansoddiad digon miniog a manwl o berfformiad o'i gymharu â'r hyn mewn ysgolion tebyg.

Mae'r uwch dîm arwain yn trefnu calendr cynhwysfawr o weithgareddau hunanarfarnu adrannol ac ysgol gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd, yn ogystal â gwrando ar farn disgyblion a rheini er mwyn gwella safonau mewn dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae'r drefn o arsylwi gwersi yn nodwedd gref o'r broses sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant. Rhoddir arweiniad buddiol i athrawon ar sut i arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, ceir cysondeb yn y modd mae arweinwyr yn adrodd ar safonau ac ansawdd yr addysgu ac yn cynnig awgrymiadau ar sut i wella. Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiadau crynodol defnyddiol iawn i staff yn dilyn cylch arsylwi gwersi. Yn sgil y broses hon, mae arweinwyr yn rhoi ffocws cadarn ar y meysydd sydd angen eu gwella yn y cylch arsylwi nesaf.

Mae'r ysgol yn ymateb yn fuan ac yn bwrpasol i feysydd neu drefniadau sydd angen eu gwella ac yn sicrhau gwelliannau priodol yn gyflym. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi mireinio a miniogi ei phrosesau olrhain ar gyfer cynnydd disgyblion cyfnod allweddol 4 eleni.

Mae rôl arweinwyr canol yn y broses sicrhau ansawdd wedi ei diffinio'n glir. Maent yn ymwybodol o'u hatebolrwydd ac effaith eu gwaith ar safonau'r ysgol. Mae mwyafrif o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn adnabod cryfderau a meysydd l'w gwella yn briodol. Serch hyn, mewn lleiafrif o hunanarfarniadau adrannol, nid yw arfarniadau ar safonau, gan gynnwys safonau grwpiau o ddisgyblion, yn ddigon trwyadl.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hunanarfarnu ac yn galluogi'r ysgol i osod blaenoriaethau pendant er mwyn codi safonau, gan gynnwys targedau manwl a heriol ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae'r cynllun yn

cyfeirio'n briodol at gynnal a chodi safonau dysgu a lles disgyblion, darparu cwricwlwm cyfoes a phrofiadau cyfoethog o bersbectif Cymraeg a Chymreig a datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. Mae cynlluniau datblygu ysgol ac adrannol yn cynnwys camau gweithredu a meini prawf llwyddiant priodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r cynlluniau adrannol yn cynnwys targedau meintiol i fesur a monitro cynnydd.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn flaengar wrth gydweithio'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid ac arwain llu o brosiectau sy'n ehangu ar brofiadau addysgol y disgyblion. Caiff y rhain effaith gadarnhaol iawn ar fedrau ieithyddol a lles emosiynol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn gydag amrywiaeth o asiantaethau a llwydda'r cydweithio hyn i gynhyrchu hinsawdd o ymddiriedaeth a chyfathrebu effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau arbennig gydag ysgolion cynradd partner sydd yn sicrhau dilyniant cwricwlaidd yn ogystal â chefnogi lles y disgyblion wrth iddynt drosglwyddo. Agweddau nodedig yw'r cynllun 'Cau'r bwlch' sy'n cynorthwyo disgyblion penodol i wella'u llythrennedd, a'r cynllun 'llys-genhadon iaith', sy'n datblygu medrau dadansoddol y disgyblion a'u hymwybyddiaeth o hanfodion ieithoedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n ddychmygus gyda'r consortiwm ac ysgol uwchradd leol cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu medrau amlieithog y disgyblion. Mae hyn yn arfer arloesol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y niferoedd sy'n dewis cyrsiau ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 ac ar fedrau ysgrifennu a darllen Ffrangeg a Sbaeneg yng nghyfnod allweddol 3.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth ddefnyddiol gydag ysgol uwchradd Gymraeg gyfagos i ehangu ar ddewis cyrsiau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r berthynas gyda choleg addysg bellach yn caniatáu i ddisgyblion ddilyn cyrsiau galwedigaethol berthnasol drwy'r Gymraeg.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol gyda busnesau lleol, er enghraifft gyda labordy cemeg lleol ac er mwyn cefnogi'r ffair grefftau flynyddol. Mae'r disgyblion yn elwa yn arbennig o'r sesiynau ffug-gyfweliadau a gynhelir gyda chyflogwyr lleol a sesiynau gyrfaedd cyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn cydweithio ag asiantaethau proffesiynol creadigol yn llwyddiannus i godi hyder a hunanddelwedd disgyblion penodol drwy gynllun llythrennedd a rhifedd dychmygus.

Mae'r cydweithio gyda'r colegau hyfforddi darpar athrawon yn effeithiol iawn ac yn ategu dealltwriaeth broffesiynol athrawon.

Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol gyda rhieni. Fodd bynnag, nid yw gwefan yr ysgol yn hawdd i'w defnyddio.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn hynod effeithiol o ran cynllunio anghenion datblygu'r holl staff. Caiff yr hyfforddiant ei gynllunio'n dda ac mae datblygu arweinwyr effeithiol yn rhan greiddiol

o weledigaeth yr ysgol. Mae rhannu arferion da ymysg athrawon yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Gwneir hyn yn effeithiol drwy gyflwyniadau ar faterion addysgol cyfoes, arsylwi cymheiriaid a chraffu ar lyfrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn flaengar yn eu rôl yn arwain ysgolion eraill ac mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu addysgwyr medrus a chyfoes yn yr ysgol. Mae'r ychydig o staff sydd yn dysgu y tu hwnt i'w pwnc arbenigol yn derbyn cefnogaeth briodol i sicrhau bod ganddynt y ddealltwriaeth hanfodol i addysgu'r pwnc. Mae'r staff ategol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr, ac mae'r amcanion a osodir drwy gyfrwng y cynllun "Gwireddu Potensial" yn cyd-fynd â gweledigaeth a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol ar gyfer gwario'r grantiau penodol, gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae hyn yn cynnwys penodi staff i hyrwyddo medrau sylfaenol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithredu wedi cael effaith gref ar berfformiad disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn y mwyafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r pennaeth, y bwrsar a'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn drylwyr ac mae'r ysgol wedi gweithredu'n llwyddiannus i ymateb i'r heriau ariannol diweddar. Ar sail perfformiad presennol, cynigia'r ysgol werth da am arian.

# Atodiad 1

## 6764103 - Ysgol Gyfun Cwm Rhymini

|   |                  |
|---|------------------|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr  | 1432             |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.8             |
| Grŵp PYD  | 2 (10%<PYD<=15%) |

### Cyfnod allweddol 3

|   | Ysgol |      |      |      | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|-------|------|------|------|----------------------------|--------------------------|
|   | 2012  | 2013 | 2014 | 2015 |                            |                          |
| <b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9</b>     | 236   | 236  | 239  | 207  |                            |                          |
| <b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b> | 78.8  | 85.6 | 84.1 | 83.1 | 88.6                       | 83.9                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 3     | 2    | 4    | 4    |                            |                          |
| <b>Saesneg</b>  |       |      |      |      |                            |                          |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan                       | 236   | 236  | 239  | 207  |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%)                              | 85.6  | 89.0 | 89.1 | 86.0 | 91.5                       | 87.9                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 2     | 2    | 3    | 4    |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%)                              | 37.7  | 56.8 | 53.6 | 55.1 | 55.8                       | 52.6                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 3     | 1    | 3    | 4    |                            |                          |
| <b>Cymraeg iaith gyntaf</b>                           |       |      |      |      |                            |                          |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan                       | 236   | 236  | 239  | 207  |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%)                              | 84.3  | 88.1 | 89.5 | 88.9 | 92.3                       | 90.9                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 3     | 3    | 3    | 4    |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%)                              | 33.1  | 45.8 | 49.8 | 50.2 | 59.4                       | 56.1                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 3     | 2    | 3    | 3    |                            |                          |
| <b>Mathemateg</b>                                     |       |      |      |      |                            |                          |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan                       | 236   | 236  | 239  | 207  |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%)                              | 82.2  | 87.3 | 87.9 | 89.4 | 91.7                       | 88.7                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 4     | 3    | 4    | 4    |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%)                              | 33.5  | 54.7 | 54.8 | 49.8 | 58.0                       | 59.5                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 4     | 3    | 4    | 4    |                            |                          |
| <b>Gwyddoniaeth</b>                                   |       |      |      |      |                            |                          |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan                       | 236   | 236  | 239  | 207  |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%)                              | 89.0  | 91.1 | 90.8 | 90.8 | 95.8                       | 91.8                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 2     | 3    | 4    | 4    |                            |                          |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%)                              | 42.8  | 53.4 | 53.6 | 48.8 | 58.6                       | 58.5                     |
| Chwarterl meincnod                                    | 3     | 2    | 4    | 4    |                            |                          |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

## 6764103 - Ysgol Gyfun Cwm Rhymini

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

1432

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

12.8

Grŵp PYD

2 (10%&lt;PYD&lt;=15%)

## Cyfnod allweddol 4

|  | Ysgol |       |       |       | Cyfartaledd<br>y teulu<br>(2015) | Cyfartaledd<br>Cymru<br>(2015) |
|--|-------|-------|-------|-------|----------------------------------|--------------------------------|
|  | 2012  | 2013  | 2014  | 2015  |                                  |                                |
| <b>Nifer y disgyblion 15 oed</b>   | 217   | 213   | 234   | 228   |                                  |                                |
| <b>Canran y disgyblion 15 oed sydd:</b>  |       |       |       |       |                                  |                                |
| <b>Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg</b> | 61.3  | 61.5  | 68.4  | 53.5  | 61.9                             | 57.9                           |
| Chwarterl meincnod   | 2     | 2     | 2     | 4     |                                  |                                |
| <b>Wedi cyflawni trothwy lefel 2</b>   | 89.4  | 93.0  | 90.2  | 88.6  | 91.8                             | 84.1                           |
| Chwarterl meincnod   | 1     | 1     | 2     | 3     |                                  |                                |
| <b>Wedi cyflawni trothwy lefel 1</b>   | 96.3  | 98.1  | 97.4  | 99.1  | 99.1                             | 94.4                           |
| Chwarterl meincnod   | 2     | 2     | 3     | 2     |                                  |                                |
| <b>Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)</b>   | 61.3  | 61.0  | 67.5  | 52.6  | 59.8                             | 54.8                           |
